

# Is-ddeddfau pysgota eog a brithyll môr newydd arfaethedig ar gyfer Afonydd Wysg a Gwy yng Nghymru

## Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen dechnegol hon yn amlinellu'r achos ar gyfer cyflwyno rheolaethau pysgota i ddiogelu stociau eogiaid a brithyllod y môr yn afon Wysg ac afon Gwy (yng Nghymru) ac yn cyflwyno cynigion terfynol ar gyfer is-ddeddfau newydd i reoleiddio pysgota a chadw pysgod sydd wedi'u dal. Mae hyn yn dilyn ein hadolygiad o dystiolaeth o'r statws stoc sy'n deillio o ystadegau dal, a'r pryderon parhaus ynghylch statws poblogaethau pysgod ifanc yn y ddau ddalgylch hyn.

Byddai'r is-ddeddfau'n disodli'r is-ddeddfau presennol sydd wedi bod mewn grym ers 2012 ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl eogiaid a brithyllod y môr sy'n cael eu dal â gwialen ar afon Gwy gael eu rhyddhau, a'r holl eogiaid trwy gydol y tymor ac unrhyw frithyllod y môr sy'n cael eu dal cyn 1 Mai ar afon Wysg, a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Achos CNC yw bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn bodloni pob un o'r tri gofyn, sef rheidrwydd, cymesuredd a rhesymoldeb.

Os nad yw is-ddeddfau newydd mewn grym ar gyfer tymor 2022 ymlaen, byddai llai o amddiffyniad ar gyfer stociau bregus eogiaid a brithyllod y môr yn afon Wysg ac afon Gwy. Wrth werthuso opsiynau rheoli, dylai cadwraeth a chynaliadwyedd adnoddau eogiaid a brithyllod y môr gael blaenoriaeth. Mae'r cynigion hefyd wedi'u gosod yng nghyd-destun uchafu'r nifer o bysgod sy'n gallu dianc a silio a hyrwyddo adfer stoc tuag at gydnherthedd a chynaliadwyedd gwell.

Byddai'r cynigion, pe baent yn cael eu cadarnhau a'u gweithredu, yn gweld is-ddeddfau yn gwneud dal a rhyddhau statudol yn ofynnol wrth bysgota ar gyfer yr holl eogiaid a brithyllod y môr sy'n cael eu dal â gwialen ar afon Gwy (yng Nghymru), ac ar afon Wysg ar gyfer yr holl eogiaid trwy gydol y tymor ac ar gyfer unrhyw frithyllod y môr sy'n cael eu dal cyn 1 Mai.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn ceisio barn ar y cynigion hyn.

Ein hamcan cyffredinol ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yw fel a ganlyn:-

***“Diogelu cynaliadwyedd ein cyflenwad naturiol o stociau eogiaid a brithyllod y môr gwyllt yng Nghymru drwy gymhwyso'r arferion gorau o ran gwyddoniaeth a rheolaeth.”***

Mae'r achos technegol hwn yn disgrifio statws stociau yn afon Wysg ac afon Gwy, yn ystyried materion ynghylch defnyddio stociau eogiaid a brithyllod y môr, ac yn ystyried yr opsiynau ar gyfer rheolaeth gynaliadwy.

Yn y degawdau diwethaf, mae statws y rhan fwyaf o'n stociau o salmonidau mudol yng Nghymru wedi dirywio: nid yw afon Gwy ac afon Gwy yn eithriad. Mae amrywiaeth gymhleth o ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys llai o

bysgod yn goroesi yn y môr, y pwysau ar gynefinoedd dŵr croyw (gan gynnwys ansawdd dŵr), ac ymdrech bysgota anghynaliadwy yn y gorffennol mewn moroedd mawr a physgodfeydd rhwystrol eraill, gan gynnwys rhai pysgodfeydd yn nyfroedd Cymru. Mae rhai o'r pwysau hwn wedi cael sylw neu wedi'u tynnu, gan gynnwys cyflwyno dal a rhyddhau gofynnol ar gyfer yr holl eogiaid a brithyllod y môr yn afon Gwy yn 2012. Fodd bynnag, nid yw stociau wedi dychwelyd i lefelau toreithrwydd hanesyddol, neu hyd yn oed i sefyllfa o gynaliadwyedd lle y gellir caniatáu defnydd.

Ein barn yw y gall stociau gael eu defnyddio pan fyddant yn gynaliadwy, ond hyd nes eu bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid inni sicrhau bod pwysau yn cael eu cymedroli neu'u hatal er mwyn cyflawni'r nod hwn. Yn unol â'r farn hon, gwnaethom gyflwyno is-ddeddfau 'Cymru gyfan', a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2021, sy'n ei gwneud yn ofynnol rhyddhau'r holl eogiaid sy'n cael eu dal â gwialen neu rwyd yng Nghymru. Ar afon Wysg, maent hefyd yn eu gwneud yn ofynnol rhyddhau unrhyw frithyllod y môr sy'n cael eu dal cyn 1 Mai a'r holl frithyllod y môr sy'n hirach na 60 cm.

Mae'r eog yn rhywogaeth wedi'i rhestru o dan Atodiad 2 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwylt) ac, ar hyn o bryd, mae'n cyfrannu at ddynodi afon Wysg ac afon Gwy fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Yn yr adroddiad diwethaf gan y DU yn 2019, adroddwyd ar statws eog yr Iwerydd fel Anffafrifol–Annigonol, oherwydd yr aseswyd poblogaeth a rhagolygon y dyfodol fel annigonol.

Rhestrir eogiaid a brithyllod y môr fel rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Ystyrir y ddwy rywogaeth ar hyn o bryd felly fel rhai dan fygythiad mwyaf sydd angen camau cadwraeth.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i:-

***“geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio ‘hybu cydnerthedd ecosystemau’ hefyd”.***

Mae'r ddwy rywogaeth wedi'u cynnwys ar y rhestr o organebau byw o bwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

## Tystiolaeth

Rydym wedi ystyried tair prif ffynhonnell o dystiolaeth wrth ddod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffeirir gennym ar gyfer newid rheolaeth:-

1. Statws stociau oedolion o eogiaid a brithyllod y môr yn y ddwy afon
2. Statws stociau ifanc o eogiaid a brithyllod yn y ddwy afon
3. Statws eogiaid fel nodwedd ddynodedig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afon Wysg ac afon Gwy

## Eogiaid

Mae'r asesiad diweddaraf o'n stociau yn nodi bod afon Wysg yn 'Debygol o fod Mewn Perygl' a bod afon Gwy 'Mewn Perygl' ar hyn o bryd o fethu â chyflawni'u hamcanion rheoli (yn 2020), a rhagwelir y bydd y ddwy yn bod yn 'Debygol o fod Mewn Perygl' ymheng pum mlynedd (yn 2025). Yn seiliedig ar lefelau dyddodi wyau dros y pum mlynedd diwethaf (2016–2020), mae afon Wysg ac afon Gwy wedi cofnodi diffygion yn erbyn eu targedau rheoli dangosol o 4.35 a 24.52 miliwn o wyau, yn y drefn honno. Mae'r diffygion hyn yn cyfateb i tua 1,449 ac 8,175 o bysgod 8 pwys.

Roedd statws eogiaid fel nodweddion dynodedig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afon Wysg ac afon Gwy yn 'anffafriol' yn y rownd o asesiadau cyflwr a gyhoeddwyd yn ddiweddaraf (Milner ac eraill, 2013), wedi'i ysgogi'n bennaf gan rediadau oedolion gwael.

## Brithyllod y môr

Mae'r asesiad diweddaraf o ein stociau brithyllod y môr yn nodi bod stoc afon Wysg 'Mewn Perygl' ar hyn o bryd o fethu â chyflawni ei chyfyngiadau cadwraeth a rhagwelir y bydd yn parhau i fod 'Mewn Perygl' yn 2025. Mae stoc afon Gwy yn 'Debygol o fod Mewn Perygl' ar hyn o bryd o fethu â chyflawni ei chyfyngiadau cadwraeth a rhagwelir i fod yr un peth mewn pum mlynedd.

## Salmonidau ifanc

Mae statws stociau eogiaid ifanc yn afon Wysg o bryder difrifol. Ers 2015, bu gostyngiad mewn silod ar draws y dalgyllch gyda methiant sylweddol o ran recriwtio yn 2016 (Gregory ac eraill, 2020). Mae niferoedd eogiaid aeddfed sy'n dychwelyd wedi bod yn isel yn 2019 a 2020, er bod rhai ansicrwydd yn parhau ynghylch a ellir priodoli hyn yn llwyr i fethiant recriwtio 2015/2016. Nid yw niferoedd eogiaid ifanc yn nalgylch afon Wysg wedi adfer yn sylweddol ers y cyfnod hwn, gan aros ar doreithrwydd isel yn 2018 a 2019.

Er bod y methiant recriwtio a welwyd ar afon Wysg yn 2015/16 hefyd yn amlwg ar afon Gwy, nid oedd yr un mor ddifrifol, a bu ychydig o adferiad ers hynny. Fodd bynnag, mae poblogaeth eogiaid ifanc ar afon Gwy wedi bod o dan y cyfartaledd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i fod o bryder.

## Opsiynau

Rydym wedi ystyried y prif opsiynau canlynol:

1. **Gwneud dim** pellach, gan ganiatáu i'r is-ddeddfau dal a rhyddhau cyfredol ar bysgodfeydd afon Wysg ac afon Gwy ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2021.
2. **Cynnal cyfyngiadau dal a rhyddhau cyfredol.**
3. **Cynnal cyfyngiadau dal a rhyddhau cyfredol a chyflwyno mesurau ychwanegol.**
4. **Cau pysgodfeydd gwialen**, gan arwain at effeithiau economaidd-gymdeithasol negyddol.

Ystyriwyd opsiynau pellach ynghylch dyddiadau tymor a chyfyngiadau dull hefyd ac maent yn cael eu hamlinellu'n hwyrach yn yr achos technegol hwn.

Ein casgliad yw:

Mae Opsiwn 2 yn ofynnol ar gyfer afon Wysg, ac ar gyfer brithyllod y môr ar afon Gwy;

Mae Opsiwn 3 yn ofynnol ar gyfer eogiaid ar afon Gwy.

## Ein cynigion

Rydym yn ceisio cadarnhad o is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen ar afon Wysg ac afon Gwy. Rydym yn cynnig bod y mesurau canlynol yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2029, dyddiad wedi'i ddewis i gyd-fynd â dyddiadau cyfnod yr is-ddeddfau 'Cymru gyfan' a 'thrawsffiniol' a weithredwyd yn 2020.

### Afon Wysg

A. Eogiaid

Pysgota dal a rhyddhau statudol drwy'r amser.

B. Brithyllod y môr

Pysgota dal a rhyddhau statudol o ddechrau'r tymor pysgota tan 1 Mai bob blwyddyn.

### Afon Gwy

A. Eogiaid

Pysgota dal a rhyddhau statudol drwy'r amser.

Dyddiad gorffen diwygiedig ar gyfer y tymor, y tymor agored i redeg o 3 Mawrth i 17 Hydref ar gyfer afon Gwy yn ei chyfanrwydd.

B. Brithyllod y môr

Pysgota dal a rhyddhau statudol drwy'r amser.

Sylwer: Mae CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar yr achos technegol ac is-ddeddfau pysgota â gwialen ar gyfer afon Gwy ac mae'n ceisio sicrhau is-ddeddfau cymesur ar gyfer afon Gwy yn Lloegr, gan sicrhau felly ddull dalgyloch cyson ar gyfer yr afon drawsffiniol.

## Eich ymateb

Hoffem gael eich barn am ein cynigion ac rydym yn eich gwahodd i gyflwyno'r rhain gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi'i dylunio ar gyfer y diben, sydd ar gael trwy ein hwb ymgynghori.

[Ymateb i'r ymgynghoriad ar is-ddeddfau arfaethedig afon Wysg ac afon Gwy](#)

Gellir gofyn am gopïau caled o'r dogfennau trwy anfon e-bost at [fisheries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:fisheries@naturalresourceswales.gov.uk)

Neu drwy ysgrifennu at

Sophie Gott  
Is-ddeddfau Afon Wysg ac Afon Gwy  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Fortran House  
Parc Busnes Llaneirwg  
Llaneirwg  
Caerdydd  
CF3 0EY

Dylai ymatebwyr ar faterion sy'n ymwneud ag afon Gwy nodi'n ofalus y bydd sylwadau i'r ymgynghoriad hwn ar gyfer trefniadau yng Nghymru yn cael eu derbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer afon Gwy yn Lloegr yn ymgynghoriad gwahanol a bydd sylwadau i hwnnw yn cael eu derbyn gan naill ai Asiantaeth yr Amgylchedd neu gan DEFRA.